# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc

**Cyfarfod:** Y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc

**Dyddiad:** 7 Mawrth 2018

**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda B, Tŷ Hywel, y Cynulliad Cenedlaethol

**Cadeirydd**
Dr Dai Lloyd AC (Plaid Cymru)

**Siaradwyr**
Samantha Lloyd, Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol, Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd
Dr Kathryn Head, Cadeirydd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd
Rob Lewis, goroeswr strôc

**Yn bresennol**
Rhun ap Iorwerth AC
Margaret Street, Cyfarwyddwr Cymru, Cymdeithas Strôc
Caroline Walters, Swyddog Polisi Cymru, Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd
Dr Fiona Jenkins, Cadeirydd Grŵp Cenedlaethol Cyflawni ar gyfer Strôc, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd, BIP Caerdydd a'r Fro
Dr Anne Freeman OBE, Ymgynghorydd Anrhydeddus Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, cyn-Arweinydd Clinigol ar gyfer Strôc, Cymru
Dr Richard Dewar, Meddyg/Arweinydd Ymgynghorol BIP Cwm Taf ar gyfer Strôc
Nicola Davis-Job, Gofal Acíwt ac Arweinyddiaeth, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Nick Cann, goroeswr strôc, enillydd Gwobr LAS, Aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru a Llysgennad/codwr arian ar gyfer y Gymdeithas Strôc
Joanne Oliver, Arweinydd Ymgysylltu Gwasanaeth Iechyd Cymru, Sefydliad Prydeinig y Galon
Dr Susan White, Meddygaeth BIP Caerdydd a'r Fro
Peter Carr, Cadeirydd Grŵp Cyflawni ar gyfer Strôc; Dirprwy Gyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd; Arweinydd Corfforaethol BIP Aneurin Bevan ar gyfer Strôc
Kim Williams, Rhwydwaith y Galon Cymru (ar ran Tracey Hill)
Irina Erchovaia, Cydymaith Ymchwil, Prifysgol Caerdydd, goroeswr strôc
David Fitzpatrick, goroeswr strôc a gwirfoddolwr
Andrea Lewis, gwraig goroeswr strôc
Merle Lewis, mam goroeswr strôc
Mark Major
Steven Lister

**Yn bresennol**
Rhodri Davies, Pennaeth Dylanwadu a Chyfathrebu, y Gymdeithas Strôc
Jillian Haynes, Ysgrifennydd Cofnodion, y Gymdeithas Strôc
Clare Fox, Prifysgol Caerdydd, Myfyriwr y Cyfryngau

Rachel Evans, Prifysgol Caerdydd, Myfyriwr y Cyfryngau

**Ymddiheuriadau**
Huw Irranca-Davies AC
Angela Burns AC
Philippa Ford MBE, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi, Rheolwr Materion Cyhoeddus a Pholisi Cymru
Llinos Wyn Parry, Pennaeth Cymorth Strôc (Canolbarth a Gogledd Cymru), y Gymdeithas Strôc
Ross Evans, Pennaeth Cymorth Strôc (De a Gorllewin Cymru), y Gymdeithas Strôc
Sue Beckman, Cyfarwyddwr yr Uned Gyflenwi (wedi ymddeol)
Matt O'Grady, Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd, y Gymdeithas Strôc
Llyr Huws Gruffydd AC (Plaid Cymru)
Dr Tom Hughes, Niwrolegydd Ymgynghorol, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro
Haydn Canter, Gwirfoddolwr a Llysgennad y Gymdeithas Strôc
Tina Donnelly, Cyfarwyddwr, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
James Barry, Arweinydd Clinigol, Rhwydwaith y Galon Cymru Gyfan
Adam Fletcher, Pennaeth Sefydliad y Galon Cymru
Helen Hak, Therapydd Galwedigaethol Arweiniol Clinigol Strategol ar gyfer Strôc (BIP Aneurin Bevan)
Jeff Harris, MBE, goroeswr strôc o Gas-gwent
John Heaton, goroeswr strôc
Sara Moran, Swyddog Ymgyrchoedd a Lleisiau Diabetes
Chris Moore, Arweinydd Cymorth Clinigol, WAST
Sheila Tagholm, Cadeirydd Grŵp Cyfeirio Gogledd Cymru; Aelod Pwyllgor (y Gymdeithas Strôc)
Stephen Ray, Rheolwr Partneriaeth Iechyd, Bayer plc
Dr Phil Jones, Meddyg Ymgynghorol, Arweinydd Gwasanaethau Strôc yng Nghymru
Paul Mayberry, Fferyllfa Mayberry
Steve Simmonds, Cymdeithas Fferylliaeth Genedlaethol
Stephen Ray, Bayer
Carmel Donovan, Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol Integredig (Pen-y-bont ar Ogwr)
Tracey Cooper, Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dr Malin Falck, Seicoleg BIP Cwm Taf

---

Diben y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc:

Cytunwyd ar flaenoriaethau a chanlyniadau gofynnol y grŵp trawsbleidiol ar gyfer 2017-18 fel **gofal ôl-acíwt**(cymorth seicolegol a seiciatrig) ac **atal** (yn benodol, ffibriliad atrïaidd). Byddai **craffu ar y gwaith o weithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc** ar draws byrddau iechyd yn bwnc parhaol hefyd. Bwriad y cyfarfod hwn oedd cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac adolygu'r cynnydd o ran yr uchod, ac ystyried ymatebion a gafwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet i ohebiaeth a gyflwynwyd gan Dr Lloyd ar ran y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc.

1. <u>Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau:</u>

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol a'u cyflwyno. Nodir uchod yr ymddiheuriadau a ddaeth i law.

2. <u>Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol</u>

Enwebwyd y Cadeirydd presennol, Dr Dai Lloyd AC, ei eilio a'i ail-ethol yn Gadeirydd am y cyfnod 2018-19.

Enwebwyd yr Ysgrifenyddiaeth bresennol, Ms Jillian Haynes, ei heilio a'i hail-ethol yn yr un rôl ar gyfer y cyfnod 2018-19.

3. <u>Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol:</u>

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd gan yr aelodau fel adlewyrchiad cywir o gynnwys y cyfarfod. Cofnodwyd y pwyntiau canlynol er eglurhad:

Tudalen 3 - Holodd David Fitzpatrick y drafodaeth ynghylch monotherapi aspirin ac eglurodd Rhodri Davies nad oes gan y Gymdeithas Strôc safbwynt ar y mater hwn, yn feddygol neu fel arall. Dywedodd fod taflen wybodaeth ar gael ar gais gan y Gymdeithas Strôc.

Tudalen 5 - Holodd Mr Fitzpatrick a fyddai goroeswr strôc na chafodd ei dderbyn i'r ysbyty ar gyfer gofal ar ôl strôc yn cael ei gynnwys mewn ystadegau strôc. Cafodd ei sicrhau y byddai cofnod y goroeswr strôc yn cael ei gofnodi ar ryw adeg ar y llwybr.

Tudalen 6 - nodwyd nad yw niferoedd y pyliau o isgemia dros dro yn cael eu cofnodi yn gyffredinol, ond bod cynlluniau ar droed i gasglu'r data hyn yn y dyfodol.

Tudalen 6 - nododd yr aelodau fod Mr Fitzpatrick yn argymell y llyfr cyfeirio a gyhoeddwyd yn ddiweddar o'r enw: Rebuilding Your Life After Stroke wedi'i ysgrifennu gan Reg Morris a'i gydweithwyr.

4. <u>Y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu</u>:

Cwblhawyd y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf.

Roedd Dr Lloyd wedi cael ymateb ffurfiol o'r blaen gan Ysgrifennydd y Cabinet, dyddiedig 24 Medi, i'w ohebiaeth ar **ffibriliad atrïaidd**, ac mae bellach hefyd wedi cael rhagor o ymatebion dyddiedig 5 Ionawr i'w lythyrau ar bynciau 1) **unedau strôc hyperacíwt a darparu gwasanaethau thrombectomi mecanyddol** a 2) **cymorth strôc seicolegol**.

Nododd yr ohebiaeth olaf fod cynnydd da yn cael ei wneud ar ofal strôc yng Nghymru, gyda 22% yn llai o farwolaethau o strôc er 2010. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi anfon yr argymhellion at Gadeirydd y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc i'w hystyried. Byddai ymateb arall ar bob argymhelliad yn cael ei anfon ar

ôl cael cyngor gan y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc. Dywedodd nad yw Llywodraeth Cymru yn cadw data ar nifer y goroeswyr strôc sy'n cael eu sgrinio ac y byddai'n anfon gwybodaeth am nifer y niwroseiciatryddion/niwroseicolegwyr cymwysedig sy'n gweithio ym mhob bwrdd iechyd ar ôl iddynt gael eu gwirio.

Dywedodd gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch unedau strôc hyperacíwt fod cyfraddau goroesi pobl 74 oed ac iau wedi cynyddu o 88% (2011-12) i 92% (2016-17). I'r rhai 75 oed a throsodd, roedd y gyfradd wedi gwella o 75% (2006-7) i 79% (2016-17). Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo rôl goruchwylio strategol wrth ddatblygu unedau strôc hyperacíwt. Byddai Ysgrifennydd y Cabinet a Chadeiryddion y byrddau iechyd yn symud ymlaen at benderfyniad ar y cyd yn ystod cyfarfodydd chwarterol. Roedd y gwaith ailgyflunio'n flaenoriaeth i'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc ar gyfer 2017-19 a chafodd ei ddisgwyliadau eu rhestru yn y llythyr. Roedd y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc yn dyrannu rhan o'i gyllideb flynyddol, sef miliwn o bunnau ar gyfer 2018-19 er mwyn helpu i hwyluso cynnydd tuag at unedau strôc hyperacíwt. Yn gyffredinol, cytunwyd ar yr angen am gamau gweithredu i gynyddu nifer yr arbenigwyr.

Rhoddwyd sylw i wasanaeth dros dro ar gyfer thrombectomi ar gyfer Canolbarth a De Cymru yn y llythyr ac roedd trafodaethau'n parhau rhwng Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Bryste i sefydlu cymorth niwroradioleg ymyriadol i gleifion. Ar hyn o bryd, nid oes niwroseiciatryddion/niwroseicolegwyr yn gweithio yng Nghaerdydd. Cyfeiriodd y llythyr at gynllun i gynyddu nifer y staff a gaiff eu hyfforddi i gynnal thrombectomïau a gwella data.

Dywedodd Dr Fiona Jenkins y byddai cyfarfod nesaf y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yr wythnos honno a bod datblygu unedau strôc hyperacíwt a gwasanaethau thrombectomi yn eitem flaenoriaeth i'w thrafod. Awgrymodd, o ran gwasanaethau lleferydd ac iaith, fod angen gwneud y gorau o'r arbenigedd sydd ar gael a defnyddio sgiliau i rymuso cleifion.

5. Trafod Therapi Lleferydd ac Iaith a phenderfynu ar gamau gweithredu dilynol

Cyfeiriodd Rhodri Davies at adroddiad a oedd yn amlinellu'r cefndir i Therapi Lleferydd ac Iaith a'r sefyllfa bresennol yng Nghymru. Disgrifiodd hefyd y mathau gwahanol o broblemau cyfathrebu y gallai goroeswr strôc eu hwynebu.

Cafwyd cyflwyniad gan Samantha Lloyd, Therapydd Lleferydd ac Iaith ac arweinydd strôc, ar y sefyllfa yn Abertawe Bro Morgannwg. Y sefyllfa ddelfrydol oedd i'r claf gael mynediad at y gwasanaeth o fewn un awr ar bymtheg o'i dderbyn. Fodd bynnag, roedd gwasanaethau'n cael eu hymestyn yn gyson, felly roedd perygl y gallai'r gwasanaeth hwn ddod i ben yn y dyfodol, oherwydd diffyg staff. Roedd lefelau staffio isel yn golygu bod parhad y gwasanaeth yn amhosibl. Yn y cyfamser, roedd caffis cyfathrebu yn llenwi'r bwlch gwasanaeth.

Roedd cyflwyniad Dr Kathryn Head i'r grŵp yn tynnu sylw at flaenoriaethau'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc 2017. Esboniodd fod grŵp ffocws sy'n cefnogi

blaenoriaethau Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc yn nodi bylchau mewn gwasanaeth ac yn hyrwyddo datblygu rhwydweithiau effeithiol ledled Cymru. Nododd y cynnydd a wnaed hyd yn hyn wrth gyflawni'r gwasanaeth saith diwrnod o ansawdd uchel a ddymunir. Mae gan fyrddau iechyd gwahanol eu profion a'u cynlluniau iaith a lleferydd eu hunain, a'r allwedd oedd y gallu i gael mynediad at y profion hynny. Yn gyffredinol, roedd perfformiad cymysg ar draws Cymru ond roedd arfer da yn cael ei rannu'n rheolaidd. Roedd hyfforddiant yn hanfodol ac roedd mwy o staff yn cael eu hyfforddi, ond nes iddynt gael eu hyfforddi'n llawn, nid oeddent yn ddefnyddiol fel therapyddion annibynnol.

Dywedodd Dr Susan White fod prinder therapyddion lleferydd cymwysedig ledled y DU. Byddai canlyniadau â thystiolaeth yn allweddol i gael cyllid.

Roedd y Grŵp Cyflawni ar gyfer Strôc Cenedlaethol wedi cael cyfran o'r filiwn o bunnau gan Ysgrifennydd y Cabinet a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwerthusiad saith diwrnod. Felly, byddai'n hollbwysig bod manteision y gwasanaeth saith diwrnod yn cael eu dangos i fyrddau iechyd eraill er mwyn cael eu cefnogaeth. Byddai gwybodaeth am ganlyniadau, lefelau staffio ac ati yn hanfodol. Byddai'r wybodaeth hon hefyd yn ofynnol gan yr archwiliad.

Nodwyd bod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi cael cymeradwyaeth am ei wasanaethau iaith a lleferydd, gan ei fod wedi trefnu cleifion yn grwpiau, gan ddangos bod arloesedd model hefyd yn hanfodol wrth ddangos tystiolaeth o reoli cyllid lleol.

Yna, soniodd Mr Rob Lewis am ei brofiad ef o strôc i'r grŵp. Roedd wedi bod yn berchen ar fusnes asiantaeth osod ers 35 mlynedd pan ddirywiodd ei olwg yn sydyn ym mis Hydref diwethaf. Ni ddangosodd profion ddim byd anarferol ond roedd un meddyg wedi gweld anghysondeb ychydig o oriau cyn iddo gael strôc ddifrifol. Roedd yn ganmoliaethus iawn o'r gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith a gafodd wedyn yn Ysbyty Treforys. Roedd ei wddf yn wan ac ni allai lyncu felly rhagnodwyd therapi adsefydlu iddo er mwyn cryfhau'r cyhyrau. Fe'i rhyddhawyd ym mis Chwefror.

Soniodd Irina Erchovaia am ei phrofiad hi o strôc dair blynedd yn gynharach pan gafodd ei thannau llais eu parlysu ac, am dair wythnos, nid oedd yn gallu llyncu. Cymerodd wyth mis nes i'w thannau llais ddychwelyd. Dywedodd fod yr ymarferion yn gweithio'n dda os ydych yn dyfalbarhau, ond nid oedd wedi cael gwybod am eu pwysigrwydd yn ei gwellhad. Nid oedd prawf i ddangos ei chynnydd tuag at wella.

Cytunodd Dr Lloyd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i dynnu sylw at ddiffyg staff hyfforddedig ac i roi gwybod am fanteision y gwasanaeth a chanlyniadau'r fath fwlch mewn gwasanaeth.

Diolchodd Dr Lloyd i Mr Lewis am ei gyflwyniad.

**Cam gweithredu: Dr Lloyd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i amlygu pa mor brin yw'r therapyddion lleferydd ac iaith yng Nghymru, manteision y gwasanaeth a chanlyniadau peidio â darparu'r gwasanaeth hwn.**

6. Unrhyw fater arall:

Ni thrafodwyd unrhyw fater arall.

Byddai cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc yn cael ei gynnal ar **26 Mehefin 2018 am 12:00** (lleoliad i'w gadarnhau). Y pwnc i'w drafod fyddai lefelau staffio'r GIG ac archwiliad sefydliad 2018.

Cynhelir cyfarfodydd yn y dyfodol ar:

**18 Medi am 18:30** - y pwnc i'w drafod fydd atal.

**11 Rhagfyr am 18:30** - trafodir gofal cymdeithasol, yn benodol gofal diwedd oes/cartrefi gofal.

**12 Mawrth 2019 am 18:30** - cynhelir yr ail Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol a bydd y Grŵp yn adolygu cynnydd ei waith.

Nododd Dr Lloyd fod dyddiadau, amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd yn y dyfodol, yn ogystal â chofnodion yr holl gyfarfodydd blaenorol, i'w gweld ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

---

Cymeradwywyd y cofnodion gan Dr Dai Lloyd AC fel adlewyrchiad gwir o gynnwys y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2018:

Llofnod: ……………………………………………….. Dyddiad: ………………

---